20.02.2020

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Ein Byd yn taflu goleuni ar densiynau Gogledd Iwerddon

"Dwi wrth fy modd yn mynd i lefydd gwahanol, lle ma'n bosib i bethau droi'n ffradach ar unrhyw eiliad – dwi'n rhyw fath o *thrill seeker*! " meddai'r newyddiadurwr Siôn Jenkins.

A dyna ran o'r ysgogiad y tu ôl i'r gyfres ddogfen mae e'n ei chyflwyno, **Ein Byd**. Mae'r rhaglenni, sy'n cael eu darlledu ar S4C bob nos Lun yn mynd dan groen rhai o'r pynciau llosg sy'n destun trafod y byd heddiw - byw gyda gorbryder, bod yn gaeth i gocên, pwysau Instagram, ac erthyliad.

Bydd rhaglen nos Lun 9 Mawrth yn dod o Ogledd Iwerddon - man a ddioddefodd gwrthdaro a thrais dros gyfnod o dri degawd. Er i'r rhyfela ddod i ben yn 1998 gyda chytundeb Gwener y Groglith, mae arwyddion o'r rhaniadau rhwng y teyrngarwyr a'r gweriniaethwyr i'w gweld o hyd. Bydd Siôn yn dysgu mwy am eu hanes cymhleth ac yn ceisio deall pam fod Brexit yn bygwth yr heddwch bregus heddiw.

"Mae gwleidyddiaeth Gogledd Iwerddon wastad wedi fy niddori i, a'r dasg wedyn oedd i'w wneud yn bwnc digon hygyrch ac yn bwnc roedd pobl yn medru dysgu rhywbeth oddi wrtho, heb fod yn uchelael ac yn rhy wleidyddol," meddai Siôn, sy'n wreiddiol o Landysilio, Sir Benfro ond bellach yn byw yng Nghaerdydd.

"Wrth gwrs, fel Cymru, mae Gogledd Iwerddon yn rhan o'r Deyrnas Unedig, ond mae'n teimlo fel lle mor bell i ffwrdd. O ran y gymdeithas yno a'r meddylfryd, mae mor wahanol i'r hyn ry'n ni'n gyfarwydd ag ef yng Nghymru.

"Mae'r heddwch mas 'na mor fregus, ac ers cytundeb Gwener y Groglith, nawr yw'r amser lle mae 'di bod ar ei fwyaf bregus. Er bod ni'n gymharol agos yn ddaearyddol dy'n ni wir ddim yn sylweddoli pa mor wahanol yw'r wlad a pha mor allweddol yw crefydd a hunaniaeth yno. Mae crefydd yn mynd law yn llaw a'ch daliadau gwleidyddol. Mae rhai'n dweud bod nhw'n obeithiol am y dyfodol ac yn gobeithio'u bod nhw'n gallu symud mla'n gyda'i gilydd mewn heddwch ond mae'r daliadau dal 'na – y seici 'na o fod yn Gatholig neu'n Brotestant."

Yn y rhaglen, mae'n siarad â'r unoliaethwyr Protestannaidd sydd am aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Ac mae'n ymweld â'r Brifddinas, Belfast yn ystod tymor gorymdeithio'r Protestanniaid sy'n cyrraedd piniacl ar y 12fed o Orffennaf pan mae'r hollt yn y wlad ar ei mwyaf amlwg, a choelcerthi enfawr yn cael eu hadeiladu o gwmpas y ddinas.

Wrth dreulio amser yn ninas Derry, man cychwyn yr holl ryfela, daw i glywed am y tensiynau sy'n bodoli yn y rhan yma o Ogledd Iwerddon, a'r pryderon y gall pethau droi'n dreisgar eto. Mae'n ymweld â phencadlyus Saoradh, un o'r mudiadau gweriniaethol mwyaf radical; plaid wleidyddol sy'n ystyried ei hun yn elyn i'r wladwriaeth Brydeinig, ac sydd hollol yn erbyn cytundeb Gwener y Groglith.

Meddai Siôn: "Fi’n lico cwrdd â phobl sydd â barn eitha’ cryf a dysgu mwy am y farn yna heb fod yn rhy feirniadol ohonyn fel ‘mod i a’r gynulleidfa’n dysgu rhywbeth. Ac yn sicr yng Ngogledd Iwerddon fe glywais farn cryf ac fe ddysgais lawer."

**Ein Byd**
**Nos Lun 9 Mawrth, 9.30**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad ITV Cymru Wales ar gyfer S4C**

20.02.2020

Heledd Williams
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Ein Byd exposes tensions that still remain in Northern Ireland

"I'm in my element when I go to places where situations could get fraught at any moment – I'm a bit of a thrill seeker!" said the journalist Siôn Jenkins.

And certainly, Siôn does not shy away from difficult situations or taboo subjects in the documentary series which he presents, **Ein Byd (Our World)**.

The series, which is shown on S4C every Monday night, delves deep into a host of the day's controversial talking points and important topics, such as – living with anxiety, cocaine addiction, the pressures of Instagram, and abortion.

On Monday 9 March, **Ein Byd** comes from Northern Ireland – a nation which experienced violence and hostility over three decades. Although the conflict was officially ended in 1998 with the Good Friday Agreement, signs of the deep divide between Loyalists and Republicans can still be seen today. Sion will be trying to learn more about the complicated history and aim to discover whether Brexit will threaten the peace.

"The politics of Northern Ireland has always fascinated me, and the challenge is this episode was to make the programme more accessible and something that people could learn from, without being too political or highbrow," said Siôn, who is originally from Llandysilio, Pembrokeshire, and now lives in Cardiff.

"Just like Wales, Northern Ireland is part of the UK of course, but it feels so far away. In terms of the community and the state of mind, it's very different to what we're familiar with in Wales.

"The peace is very fragile there, and since the Good Friday Agreement was signed, it's never been more fragile than it is now. Although we're fairly close geographically, we don't realise how different it is, and how important religion and identity is there. Religion goes hand-in-hand with politics. They are hopeful for the future and they hope they can move together in peace, but the divide is still there – the psyche of being a Catholic or a Protestant."

In this episode, Siôn speaks with Protestant Unionists who want to remain a part of the UK. He also visits the capital, Belfast, during the Protestant marching season, which reaches the pinnacle on the 12th of July, when the country is at its most divided as enormous bonfires are lit across the city.

Spending time in Derry, the place where the conflict began, we'll also hear about the tensions that still exist in the region and about concerns that violence could break out again. Siôn also visits the headquarters of Saoradh, a radical republican movement and political party which considers itself an enemy to the British state and is firmly against the Good Friday Agreement.

Siôn added: "I like meeting people with strong views and learning more about their beliefs, without being too judgemental, so that I can learn something, as well as the viewers. In Northern Ireland, I certainly heard some strong views and learnt a lot."

**Ein Byd**
**Monday 9 March, 9.30pm**
**English subtitles available**
**On-demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**An ITV Cymru Wales production for S4C**